| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 21 Hydref, 2010 |
| **TEITL** | Rhaglen Strategol "Tuag At 2025" – Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Rhaglen Strategol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Ngwynedd hyd at 2025 |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo'r Argymhellion |
| **AWDUR** | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwyr Strategol a<br>Dewi Jones, Pennaeth Addysg |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Dewi Lewis a<br>Cyng. Liz Saville Roberts |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas y papur amgaeedig [***Atodiad A*** ] yw cyflwyno Rhaglen Strategol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd hyd at 2025.

1.2. Bydd y Rhaglen Strategol yn ffocws clir i ddatblygu'r gyfundrefn addysg a hyfforddiant yn y Sir i'r dyfodol, yn sail i adolygiadau trefniadaeth, ac yn gyrru rhaglen buddsoddiant cyfalaf y Cyngor.

## 2. CEFNDIR

2.1. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad yn ystod Haf 2010 ei dymuniad i dderbyn amlinelliad o Strategaeth Awdurdodau Lleol wrth ddatblygu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cynaliadwy i'r dyfodol. Gofynnir i'r amlinelliad grybwyll bwriadau'r awdurdod ar gyfer darparu addysg oed 3-19.

2.2. Yn wreiddiol, gofynnwyd i Awdurdodau gyflwyno strategaethau i'r Cynulliad erbyn 28 Hydref, 2010. Bellach, mae'r amserlen wedi'i hymestyn i ddechrau Rhagfyr 2010.

2.3. Mae'r dymuniad yma gan y Cynulliad i gael Strategaethau Lleol o'r math yma yn eu lle yn rhan o'r Rhaglen Cyfalaf newydd ar gyfer "Ysgolion yn yr Unfed Ganrif ar Hugain". Rhoddir cryn bwyslais ganddynt i sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol strategaethau sy'n adnabod eu gweledigaeth a'u hamcanion ar gyfer addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc.

## 3. GWEITHGOR GWELLA

3.1. Galwodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc y Gweithgor Gwella ynghyd er mwyn arwain ar ddatblygu'r Strategaeth.

3.2. Cytunwyd ar yr aelodaeth drawsbleidiol isod:

Cynghorwyr Dewi Owen (Cadeirydd), Gwen Griffith, Sian Gwenllian, June Marshall, John Pughe Roberts, Gethin Williams a Dyfrig Siencyn. Gwahoddwyd y Deilydd Portffolio Addysg i fynychu'r cyfarfodydd fel sylwebydd.

## 4. AMLINELLIAD STRATEGOL O'R GOFYNION CYFALAF

4.1. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol baratoi amlinelliad strategol o'u gofynion cyfalaf dros y 10 mlynedd nesaf – a hynny yn wyneb amcanion a blaenoriaethau eu Strategaethau.

4.2. Yn ogystal, mae angen adnabod y gofynion cyfalaf tymor byr (rhwng 2012-14) a dyma fydd sail cais y Cyngor am adnoddau o Raglen "Ysgolion yn yr Unfed Ganrif ar Hugain". Bwriedir cyflwyno ceisiadau am y cynlluniau canlynol:

- Ail-leoli ac adeiladu Ysgol Hafod Lon newydd gydag Uned Breswyl;
- Campws Gydol Oes yn y Bala ac adnewyddu Ysgolion O. M. Edwards; Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn;
- Prosiect Technoleg Gwybodaeth i wella isadeiledd ar draws y Sir i ddarparu cyrsiau ar-lein.

4.3. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 23 Tachwedd, 2010 efo manylion y ceisiadau hyn.

## 5. YMGYNGHORI

5.1. Cyflwynwyd y strategaeth ddrafft at sylw cyfarfod ar y cyd o benaethiaid ysgolion uwchradd (GCSU) a chynrychiolwyr o blith penaethiaid ysgolion cynradd (GYDCA) ar 8 Medi, 2010.

5.2. Bu cytundeb unfrydol i gynnwys y Strategaeth gan yr uchod.

5.3. Yn ogystal, derbyniwyd cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn eu cyfarfod ar 23 Medi, 2010.

5.4. Bydd y Gwasanaeth Addysg yn cwblhau'r golofn ar y dangosyddion fel bod y blaenoriaethau a'r deilliannau yn cael eu mesur.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 I roi cymeradwyaeth i gynnwys y Rhaglen Strategol "Tuag at 2025".